CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU

# Asesiad Effaith Cymunedol

**Ar y cynigion i:**

- **Newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 4-11 oed i 3-11 oed a sefydlu dosbarth meithrin sy'n cynnwys 48 o leoedd rhan-amser o fis Medi 2021**
- **Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas o 126 lle i 210 lle o fis Medi 2021.**

Gellir sicrhau bod y ddogfen hon ar gael yn Braille.
Hefyd, gellir sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd cymunedol eraill os bydd angen.
Cysylltwch â ni ar 01446 709828 er mwyn trefnu hyn.

# Cynnwys


| | Tudalennau |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 3 |
| **Cyd-destun Cenedlaethol** | 3 |
| **Cyd-destun Polisi Lleol** | 3 - 4 |
| **Heriau'r Presennol** | 4 - 5 |
| **Proffil Cymunedol** | 5 |
| **Asesiad o'r Effaith** | 6 – 11 |
| **Crynodeb Sgorio** | 11 |
| **Casgliad** | 12 – 13 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod holl ddisgyblion yn y Fro yn cael pob cyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau posib. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod ysgolion yn parhau i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion ein cymunedau lleol, a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau fod ymgynghoriadau yn ystyrlon, yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer y cymunedau dan sylw, ac mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau bod y cynigion yn glir, yn dryloyw ac yn adlewyrchu safbwyntiau'r rhai yr effeithir arnynt. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, llywodraethwyr, rhieni a'r cymunedau ehangach y gallwn wireddu'r weledigaeth hon.

Mae'r cynnig hwn yn cael ei ystyried o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae'r adran hon yn cyfeirio at Newidiadau a Reoleiddir mewn ysgol, sy'n cynnwys cynyddu capasiti'r ysgol gan o leiaf 25% a newid ystod oedran ysgol o flwyddyn neu fwy. Mae ysgol 210 lle newydd ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn rhan o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Cynigir bod staff a disgyblion yn symud i'r adeilad hwn erbyn Medi 2021 i ddarparu'r capasiti gofynnol.

Er bod trosglwyddo'r ysgol i'r adeilad newydd yn rhan o'r ddogfen ymgynghori hon, nid yw hyn yn destun i'r broses statudol gan y byddai'r trosglwyddiad o fewn 1.609344 cilomedr (1 milltir).

## 2. Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r arweiniad statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol i drefniadaeth ysgolion yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Wrth ystyried cynigion, mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd a gafodd eu dynodi ar gyfer rhaglenni cymunedau yn gyntaf neu raglenni olynyddion.

## 3. Cyd-destun Polisi Lleol.

Gan adleisio polisi cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol 2016-20 i gyflawni gweledigaeth o – **'Cymunedau Cryf gyda dyfodol disglair'**.

Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyflawni'r amcan 'Bro Uchelgeisiol' gan godi safonau cyflawniad cyffredinol trwy foderneiddio addysg yn y Fro er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.

Rydym yn credu, er mwyn cyflawni hyn, ei fod yn bwysig i ni gefnogi deilliannau dysgu ac addysgu trwy ddarparu adeiladau modern ac addas at y diben sy'n bodloni anghenion addysg fodern. Mae angen i ysgolion allu darparu'r profiad dysgu gorau posibl er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a' u bod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial.

## 4. Heriau'r Presennol

Byddai'r cynnig i gynyddu capasiti a newid ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn mynd i'r afael â nifer o heriau.

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach wrth ddarparu ar gyfer poblogaeth ddisgyblion fwy.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu darparu ar gyfer y galw yn y dyfodol am addysg yn seiliedig ar grefydd yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol.
- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.
- Byddai'r cynnig yn cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau 'Ardderchog' BREEAM (Building Research Establishment Environmental Assessment Method) ac yn cael eu hadeiladu i safon 'A' EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni).
- Sefydlu uned feithrin sy'n cynnig model mwy effeithlon a chynaliadwy ar gyfer darparu addysg ar gyfer y 21ain Ganrif sy'n bodloni'r safonau adeiladu cenedlaethol a lleihau costau parhaus ac ôl troed carbon adeiladau addysg.
- Datblygu ethos a diwylliant yr ysgol ymysg plant ieuengach, gan arwain at berthnasoedd rhyngbersonol effeithiol a lefel hunan-barch uwch.
- Cynnig dull cyson o 3-11 mlwydd oed a fyddai'n hybu ac yn tanlinellu parhad a chynnydd i'r disgyblion, gan sicrhau cwricwlwm sy'n eang ac yn gytbwys.
- Byddai'r holl waith o gynllunio'r cwricwlwm a sicrhau adnoddau yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad disgyblion blaenorol ac ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus.
- Helpu disgyblion i feithrin eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a chymhwyso eu gwybodaeth am bynciau yn fwy cadarnhaol a chreadigol ar draws continwwm dysgu.

- Gwella'r trefniadau da sydd eisoes ar waith o ran gofalu, helpu a chyfarwyddo disgyblion o oedran ieuengach.

- Ymestyn a sefydlu perthnasoedd â theuluoedd o'r cyfle cyntaf i gryfhau'r pontio o'r cartref i'r ysgol.

## 5. Proffil Cymunedol

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn ysgol wirfoddol a reolir cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu pobl ifanc 4 i 11 oed yn Sain Nicholas a Thresimwn. O ran derbyniadau, mae 18 disgybl ym mhob grŵp blwyddyn gyda chyfanswm capasiti o 126 o ddisgyblion. Nid yw'r ysgol yn darparu darpariaeth feithrin ar hyn o bryd.

Mae Sain Nicolas yn bentref yng Ngorllewin y fro, yn ward Gwenfô. Yn ôl data Cyfrifiad 2011, mae gan ward Gwenfô boblogaeth o 2,659 gydag oedran cymedrig o 46. Mae 69% o'r boblogaeth yn weithgar yn economaidd ac mae amddifadedd yn isel. Mae 69% o'r boblogaeth yn adnabod eu hunain fel yn Gristnogol.

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALLC) 2014, mae Gwenfô 1 yn safle 1664 allan o 1909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (ACEHI) yng Nghymru, gan ei osod ymhlith y 50% lleiaf difreintiedig. Serch hynny mae Gwenfô 1 ymysg y 10-20% MALLC mwyaf difreintiedig o ran mynediad at wasanaethau. Gellid gwella hyn drwy gynnig mwy o fynediad i'r gymuned a mwy o gyfleusterau.

**Datblygiadau Tai**

Mae nifer o ddatblygiadau tai ar raddfa fawr wedi'u cynllunio ar gyfer ardal Bro Morgannwg. Mae caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer 117 o anheddau i'r dwyrain o Sain Nicolas a 120 o anheddau i'r dwyrain o Dresimwn. Mae'r datblygiadau tai hyn wedi'u lleoli o fewn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas.

Amcangyfrifir y nifer o ddisgyblion sy'n deillio o ddatblygiad drwy ddefnyddio fformiwla sy'n deillio o ddata cyfrifiad o ddeiliaid tai ym Mro Morgannwg. Mae'r fformiwla wedi'i chynnwys yng Nghanllawiau Atodol y Cyngor at ddibenion cynllunio.

Amcanestynir y bydd y datblygiad cyfan yn cynhyrchu tua 24 o ddisgyblion ysgol feithrin a 66 disgybl ysgol gynradd.

## 6. Asesiad o’r Effaith

Mae’r rhan hon o’r Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned yn asesu’r effaith bosibl y gallai’r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Mae’r wybodaeth a ddadansoddwyd yn y broses hon yn cynrychioli cipolwg o’r sefyllfa bresennol. Mae’r asesiad o effaith yn ddogfen sy’n esblygu, a bydd yn parhau i gael ei datblygu drwy gydol y project. Caiff adborth a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori ei ddefnyddio i lywio’r Asesiad Effaith Cymunedol, a gaiff ei gyflwyno i’r Cabinet fel rhan  Adroddiad yr Ymgynghoriad.

Cafodd wyth mesur allweddol eu nodi:

| Cyf. | Mesur |
|---|---|
| CI1 | Plant sy’n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir  gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir a gweithgareddau ac a gynhelir ar safle’r ysgol |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol |
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol |
| CI8 | Trefniadau cludiant |

Aseswyd yr wyth mesur i nodi unrhyw effeithiau negyddol neu gadarnhaol ar y gymuned leol a'r gymuned ehangach, a rhoddwyd sgôr sy’n amrywio o -3 i +3 ar sail y cydbwysedd o dystiolaeth oedd ar gael.

| Sgôr | Asesiad |
|---|---|
| -3 | Dirywiad mawr |
| -2 | Dirywiad cymedrol |
| -1 | Dirywiad bach |
| 0 | Dim newid yn gyffredinol |
| 1 | Gwelliant bach |
| 2 | Gwelliant cymedrol |
| 3 | Gwelliant mawr |

**Effeithiau ar y Gymuned Leol**

| Cyf. | Mesur | Sgôr | Effaith y Symud Arfaethedig |
|---|---|---|---|
| CI1 | Plant sy'n byw yn y dalgylch yn mynychu eu hysgol leol | 2 | Mae datblygiadau tai diweddar wedi arwain at nifer y disgyblion yn cynyddu yng Ngorllewin y Fro. O fewn dalgylch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas mae dau ddatblygiad mawr sy'n dod i gyfanswm o 237 o anheddau. Mae rhagamcaniadau'n dangos na fyddai Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn gallu ateb y galw cynyddol hwn. Byddai cynyddu capasiti Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas erbyn mis Medi 2021 yn golygu y byddai'r ysgol yn gallu darparu ar gyfer y galw a ragwelir yn y dyfodol o'r tu mewn i'r dalgylch.<br><br>Yn draddodiadol, mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas wedi denu nifer fawr o ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch. Mae rhagamcaniadau'n dangos y bydd y galw'n cynyddu o'r tu mewn i'r dalgylch oherwydd y datblygiadau tai diweddar ac yn y dyfodol.<br><br>Byddai ychwanegu darpariaeth feithrin yn sicrhau bod yr ysgol yn gallu diwallu anghenion y gymuned leol yn well.<br><br>Mae holl drefniadau dalgylch ac ysgolion bwydo Bro Morgannwg yn destun adolygiad rheolaidd ac mae adolygiad eang wedi cael ei gynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu mewn ymgynghoriad ar drefniadau derbyn i'r ysgol yn y dyfodol. |
| CI2 | Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer y gymuned leol, gan | 2 | Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn cynnig clwb brecwast ar hyn o bryd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gynnwys gweithgareddau allgyrsiol. | | Mae’r clwb brecwast ar gael o 7.50am tan 8.40am.<br><br>Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas hefyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae’r rhain yn cynnwys celf, chwaraeon, papur newydd, cerddoriaeth ac eco-glybiau.<br><br>Y bwriad yw y byddai’r holl gyfleusterau presennol i blant, rhieni a’r gymuned yn parhau pe bai’r cynnig yn mynd yn ei flaen. Byddai’r cynnig yn golygu cynnydd yn nifer y disgyblion sy’n debygol o arwain at fwy o alw am wasanaethau ysgol, yn ogystal â rhoi’r cyfle i ehangu nifer y gwasanaethau a gynigir.<br><br>Mae’r cynnig yn ffurfio rhan o Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor. Byddai hyn yn cynnwys creu cyfleu$^{st}$erau newydd o’r radd flaenaf sy'n addas at yr 21ain ganrif. Elfen allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw darparu cyfleusterau cymunedol. |
| CI3 | Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol | 2 | Ar hyn o bryd, dysgir Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas dros ddau safle, gyda'r dderbynfa yn cael ei dysgu yn adeilad 'yr hen ysgol' gerllaw. Ar hyn o bryd mae'r ysgol mewn trafodaethau gyda'r esgobaeth i ddefnyddio'r adeilad hwn at ddefnydd cymunedol gan na fydd angen yr adeilad gan yr ysgol pan fydd adeilad newydd yr ysgol yn agor.<br><br>Nid yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn defnyddio unrhyw gyfleuster lleol arall. |
| CI4 | Cyfleusterau cymunedol a ddarperir a gweithgareddau ac a gynhelir ar safle’r ysgol | 2 | Ar hyn o bryd nid yw Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn cynnig unrhyw gyfleusterau gosod neu gyfleusterau at ddefnydd y gymuned. Mae hyn oherwydd cyfyngiadau safle presennol yr ysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Nod allweddol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yw sicrhau y caiff cyfleu$^{st}$erau’r ysgol eu datblygu i ddiwallu anghenion y gymuned leol.<br><br>Byddai aelodau’r gymuned leol yn cymryd rhan drwy gydol datblygiad y cynlluniau ar gyfer adeilad newydd yr ysgol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau’n bodloni anghenion y gymuned ac yn gwella’r cyfleusterau sydd ar gael.<br><br>Byddai cynyddu’r capasiti a symud yr ysgol i adeilad newydd yn arwain at gyfleusterau gwell i'r gymuned eu defnyddio.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad nododd nifer o ymatebwyr fod y cae presennol yn fan agored, fel y nodir yn https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Planning/Policy/LDP/Action-Points/HS18-AP7.pdf. Gallai cynyddu capasiti’r ysgol arwain at gynnydd o ran ôl-troed yr adeilad. Gallai hyn arwain at ostyngiad o ran maint y man awyr agored cymunedol. Fodd bynnag, byddai ansawdd y man agored yn cael ei gwella trwy ardaloedd bywyd gwyllt a chyfleusterau chwarae a chwaraeon awyr agored. |
| CI5 | Effaith ar fusnesau lleol | -1 | Nid oes gan yr ysgol gysylltiadau agos ag unrhyw fusnesau lleol neu’n eu cefnogi.<br><br>Gallai sŵn adeiladu a thraffig amharu rhywfaint ar fusnesau sy’n gweithio o gartref. Caiff yr effeithiau hyn eu hystyried wrth ddatblygu’r cynlluniau ar ffurf Asesiad Trafnidiaeth. |
| CI6 | Effaith ar gyflogaeth leol | 3 | Byddai pob aelod o staff a gyflogir yn yr ysgol ar y dyddiad symud yn trosglwyddo’n awtomatig i’r safle newydd heb unrhyw newid i delerau ac amodau eu cyflogaeth.<br><br>Gan y byddai’r ysgol yn cynyddu o 126 o leoedd i 210 o leoedd, byddai angen staff ychwanegol. Byddai hyn yn cynnwys swyddi addysgu a swyddi i staff cymorth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CI7 | Effaith ar seilwaith lleol | -1 | Mae mynediad i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas drwy ffordd fynediad gul. Prin yw'r parcio o amgylch yr ysgol sy'n achosi tagfeydd yn ystod amseroedd cyrraedd a chasglu. Byddai cynyddu capasiti'r ysgol yn debygol o arwain at ragor o geir a allai arwain at fwy o dagfeydd. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r ysgol i bennu trefniadau cyrraedd a chasglu. Gallai gweithgareddau allgyrsiol ychwanegol, megis clybiau ar ôl ysgol, helpu i leihau tagfeydd ar amseroedd casglu.<br><br>Mae goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried yn rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio i'r gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu. Byddai hyn yn sicrhau bod goblygiadau trafnidiaeth yn cael eu hystyried wrth gynllunio'r ysgol newydd. |
| CI8 | Trefniadau cludiant | 0 | Mae ar y Cyngor ddyletswydd i ddarparu cludiant ysgol am ddim i blant oedran ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded i'r ysgol briodol agosaf.[1]<br><br>*"Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf ar gyfer Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir ar gyfer Disgyblion Ysgolion Uwchradd. Mesurir pellteroedd drwy'r llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."*[2]<br><br>Nid oes gan yr ysgol unrhyw ddisgyblion ar hyn o bryd sydd â hawl i gael cludiant ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn darparu i rieni gwasanaeth bws mini sydd â ffi. |

[1] Policy For The Provision Of Home To School Transport (Revised February 2010)

[2] The Learner Travel (Wales) Measure 2008

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar y trefniadau teithio presennol i ddysgwyr gan y byddai'r ysgol yn aros ar y safle presennol ac ni fyddai unrhyw newid i'r dalgylch.<br><br>Gall fod goblygiadau o ran traffig o ganlyniad i'r cynnydd yn y capasiti ysgol. Mae goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried yn rhan o’r Asesiad Trafnidiaeth a fyddai’n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio i'r gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu. |

## 7. Crynodeb Sgorio

| Cyf. | Cymuned Leol |
|---|---|
| CI1 | 2 |
| CI2 | 2 |
| CI3 | 2 |
| CI4 | 2 |
| CI5 | -1 |
| CI6 | 3 |
| CI7 | -1 |
| CI8 | 0 |
| Sgôr cyfartalog | 1.125 |

## 8 Casgliad

Mae’r asesiad effaith yn nodi y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 1 o’r 8 mesur a aseswyd. Byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 5 o’r 8 mesur a aseswyd. Byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar y gymuned leol mewn 2 o’r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Byddai’r cynnig yn galluogi’r ysgol i barhau â’i llwyddiant wrth gynnig addysg i fwy o ddisgyblion ac ar draws ystod mwy eang o oedrannau. Byddai’n cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol fyddai’n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

Byddai’r cynnig yn galluogi’r gymuned i barhau i ddefnyddio a rhyngweithio â’r ysgol ac i wneud hynny fwyfwy, drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan ddiwallu anghenion yr ysgol ar yr un pryd. Gallai mynediad i’r man agored fod yn gyfyngedig yn ystod y gwaith adeiladu ond bydd man gwyrdd o ansawdd ar gael ar ôl i’r gwaith gael ei gwblhau.

Byddai’r cynnig yn rhoi dull cyson o 3-11 oed fyddai’n hybu ac yn tanlinellu parhad a chynnydd i’r disgyblion, gan sicrhau cwricwlwm sy’n eang ac yn gytbwys.

Ar hyn o bryd mae’r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau ar gyfer disgyblion y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Cynigir y bydd o leiaf pob cyfleuster presennol ar gyfer rhieni disgyblion a’r gymuned yn parhau gyda’r cynnig.

Byddai angen ystyried goblygiadau trafnidiaeth yn ofalus wrth ddylunio'r ysgol newydd i gyfyngu ar effaith y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n teithio i'r ysgol.

Casgliad yr Asesiad Effaith Cymunedol yw y byddai'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd ysgol yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Nicolas yn diwallu anghenion y gymuned ehangach yn well, i sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd.